# Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tachwedd 2025

---

**Mae'r Gyllideb Ddrafft Fanwl yn nodi cynlluniau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llwydraeth Cymru, WG53408, ISBN digidol 978-1-80633-633-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Cynnwys


**Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford**

**1: Cyflwyniad**

**2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**3: Tai a Llywodraeth Leol**

**4: Addysg**

**5: Trafnidiaeth**

**6: Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**7: Yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**8: Cyfiawnder Cymdeithasol**

**9: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford

Dyma ail gam y Gyllideb Ddrafft pan fydd pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet yn nodi ei gynlluniau gwario drafft manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bryd hynny mae strwythur Cyllideb Cymru yn dod yn llawer cliriach.

Rydym wedi cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft mewn dau gam gan mai dyma'r cytundeb yr ydym wedi'i wneud â’r Senedd. Cyhoeddwyd y dyraniadau adrannol lefel uchel ar 14 Hydref, ac yn awr rydym yn nodi ein cynlluniau gwario drafft. Bydd y rhain yn destun gwaith craffu gofalus dros y misoedd nesaf.

Wrth bennu eu cynlluniau gwario drafft ar gyfer 2026-27, mae pob Ysgrifennydd Cabinet wedi adeiladu ar sylfeini cadarn 2025-26 pan gafodd Cyllideb Cymru gynnydd sylweddol mewn cyllid adnoddau a chyfalaf. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u treiglo drosodd ac mae dyraniadau adrannol wedi cynyddu tua 2% yng ngham cyntaf y Gyllideb Ddrafft.

Cynlluniau gwario cychwynnol yw'r rhain. Y Gyllideb Ddrafft yw dechrau proses y gyllideb – nid ei diwedd. Mae'n caniatáu i'n gwasanaethau cyhoeddus ddechrau eu proses gynllunio eu hunain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu 98.6% o'r holl gyllid sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae hynny'n golygu y gellir gwneud mwy – ac y caiff mwy ei wneud – i fuddsoddi yn anghenion hanfodol Cymru, erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr.

Hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedais pan gyhoeddwyd cam cyntaf y Gyllideb Ddrafft: mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd, fel Senedd, dros basio Cyllideb i Gymru. Rwyf yn hollol agored i weithio gyda'r rhai sy'n credu y gellir cytuno ar gyllideb fwy uchelgeisiol. Mae'r cynlluniau gwario manwl hyn, sy'n cwblhau'r Gyllideb Ddrafft, yn darparu'r platfform inni allu gweithio gyda'n gilydd.



**Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cael ei sbarduno gan ein gwerthoedd a'n huchelgeisiau. Mae'n nodi sut yr ydym yn cyflawni a sut y byddwn yn parhau i gyflawni ar gyfer pobl Cymru.**

# 1. Cyflwyniad

## Trosolwg

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ar 14 Hydref 2025, yn nodi ein cynlluniau strategol i fuddsoddi mwy na £27bn yng Nghymru. Dyma oedd cam cyntaf y Gyllideb Ddrafft. Roedd yn esbonio'r penderfyniadau a wnaeth Gweinidogion Cymru ynghylch trethiant a dyraniadau adnoddau a chyfalaf lefel uchel ar gyfer 2026-27. Roedd yn nodi o ble mae ein cyllid yn dod, y penderfyniadau a wnaed am drethi datganoledig, a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer pob un o'r portffolios Gweinidogol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft Fanwl – yr ail gam – yn darparu mwy o wybodaeth am y cynlluniau gwario a wnaed gan bob Ysgrifennydd Cabinet. Mae'n cyflwyno dadansoddiad o sut y bydd y dyraniadau lefel uchel yn cael eu defnyddio, gan fanylu ar y cynlluniau gwario ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL).

Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn rhoi sefydlogrwydd yn gyntaf ac yn darparu £800m yn fwy nag a ddyrannwyd yng Nghyllideb Derfynol 2025-26. Mae'n adeiladu ar sylfeini cadarn y gyllideb honno, a ddarparodd £1.6bn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan sicrhau y gall pob Ysgrifennydd Cabinet barhau i fuddsoddi yn y meysydd sydd bwysicaf i bobl ledled Cymru.

Mae'n gyllideb gyfrifol, sy'n dyrannu mwy o gyllid i holl adrannau Llywodraeth Cymru ac yn sefydlu platfform clir a sefydlog i adeiladu'r Gyllideb Derfynol arno. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r isafswm man cychwyn ar gyfer pob adran ac yn dangos sut y byddwn yn blaenoriaethu cyllid i ganiatáu i'n gwasanaethau cyhoeddus barhau i gyflawni yn 2026-27.

## Y dull gweithredu o ran y Gyllideb Ddrafft

Y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o refeniw trethi datganoledig a grant bloc Llywodraeth y DU yn 2026-27 yw £27.6bn.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn ailddatgan y penderfyniadau a wnaed yng Nghyllideb Cymru 2025-26 mewn termau real. Cafodd cynnydd chwyddiannol[1] ei roi ar waith i bob MEG i sicrhau y bydd pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau 2026-27 gydag o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real â'u llinellau sylfaen diwygiedig yn 2025-26.

Esboniodd Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol sut y mae'r cyllid hwn yn dod i law, a'r penderfyniadau strategol a wneir ynghylch sut y mae'n cael ei ddyrannu rhwng pob adran yn Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut y sefydlwyd llinellau sylfaen, a sut y cyfrifwyd codiadau chwyddiannol.

[1] Wrth gyfrifo'r cynnydd chwyddiannol, rydym wedi adlewyrchu rhagolygon chwyddiant mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y datchwyddydd GDP yn 2026-27 a ragwelwyd yn 1.7%, CPI (y mynegai prisiau defnyddwyr), a ragwelir yn 1.9% a rhagolygon twf cyflog ar gyfer 2026-27 o 2.2%.

Mae'r adroddiad hwn ar y Gyllideb Ddrafft Fanwl yn nodi'r cynlluniau ar gyfer sut y bydd pob adran yn gwario £27.13bn, sy'n cynnwys £22.3bn o gyllid adnoddau, £3.5bn o gyllid cyfalaf cyffredinol, £130m o gyfalaf trafodiadau ariannol ac £1.2bn o gyllid ardrethi annomestig i lywodraeth leol.

Mae pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet wedi gwneud penderfyniadau ynghylch sut y mae'r cynnydd chwyddiannol yn cael ei ddyrannu o fewn eu portffolios. Mae pob pennod o'r adroddiad hwn yn esbonio'r penderfyniadau hynny, ac mae tablau manwl sy'n dangos Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn cael eu cyhoeddi hefyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft Fanwl.

**Ffigur 1.1: Dyraniadau Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyllideb Ddrafft 2026-27**

| | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **Adnoddau Cyllidol** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,422,751 | 625,750 | 13,048,501 |
| Tai a Llywodraeth Leol (ac eithrio Ardrethi Annomestig) | 5,690,029 | 1,297,614 | 6,987,643 |
| Addysg | 1,851,904 | 380,022 | 2,231,926 |
| Trafnidiaeth | 697,374 | 551,373 | 1,248,747 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 586,104 | 322,357 | 908,461 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 490,128 | 339,633 | 829,761 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 143,554 | 18,705 | 162,259 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 445,483 | 18,239 | 463,722 |
| **Cyfanswm** | **22,327,327** | **3,553,693** | **25,881,020** |

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi ein cynlluniau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiadau cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae hwn yn fath benodol o gyfalaf wedi'i glustnodi, a ddefnyddir yn benodol ar gyfer buddsoddiadau benthyciadau ac ecwiti yn endidau'r sector preifat a'r trydydd sector i gefnogi twf gan gynhyrchu enillion yr un pryd, y gellir ei ailfuddsoddi i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ymhellach.

Ar gyfer 2026-27 byddwn yn cael cyfalaf trafodiadau ariannol o £131.7m oddi wrth Lywodraeth y DU ac rydym hefyd yn disgwyl cael ad-daliadau pellach o £13.1m o'n buddsoddiadau blaenorol. Byddwn yn defnyddio hyn i fuddsoddi bron £130m mewn prosiectau sy'n cefnogi busnesau a'r sector tai a nodwyd yn flaenoriaethau yn 2025-26 – er enghraifft, Benthyciadau Digarbon ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, y cynllun tai Cymorth i Brynu a'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol. Bydd y buddsoddiad

parhaus hwn yn galluogi'r cynlluniau a'r cronfeydd hyn i barhau i ddarparu buddion i Gymru.

**Ffigur 1.2: Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**

| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC) | | £000oedd |
|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT** | **Cynllun FTC** | **Dyraniad Cyllideb Ddrafft 2026-27** |
| Tai a Llywodraeth Leol | Cymorth i Brynu | 58,140 |
| | Benthyciadau Datblygu RSL | 26,775 |
| | Ôl-osod Tai | 3,060 |
| | Cyfanswm | 87,975 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | Rhaglen Benthyciadau Digarbon AB/AU | 10,200 |
| | Cyfanswm | 10,200 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | Morglawdd Caergybi | 20,400 |
| | Benthyciadau Busnes Gwyrdd | 4,590 |
| | Cynllun Angylion Buddsoddi | 3,060 |
| | Cronfa Micro Fenthyciadau Cymru | 2,040 |
| | Cyfanswm | 30,090 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol | 1,530 |
| | Cyfanswm | 1,530 |
| **Cyfanswm** | | **129,795** |

* Noder: Mae Ffigur 1.2 yn dangos dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn unig ac yn eithrio ad-daliadau disgwyliedig. Nodir y sefyllfa net yn y tablau MEG ym mhob pennod.

## Cyllid heb ei ddyrannu

Nid yw Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn dyrannu'r holl adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Y Gyllideb Ddrafft yw cam ffurfiol cyntaf proses y Gyllideb, ac mae'n dal yn uchelgais gan Lywodraeth Cymru ddod o hyd i feysydd o ddiddordeb cyffredin ag Aelodau eraill o'r Senedd i alluogi Cyllideb Derfynol fwy uchelgeisiol i gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2026. Ar hyn o bryd mae tua £380m o gyllid heb ei ddyrannu. Mae hyn yn cynnwys £231m o adnoddau, £136m o gyfalaf cyffredinol, a £13m o gyfalaf trafodiadau ariannol.

## Proses y Gyllideb

Gosodwyd Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn y Senedd ar 14 Hydref 2025. Mae'r Adroddiadau'r Gyllideb a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi mewn dau gam, yn unol â'r trefniadau a nodir ym Mhrotocol y Gyllideb rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ar 14 Hydref 2025 ac mae'n nodi ein dyraniadau trethiant, cyllid a gwariant lefel uchel.

Mae'r Gyllideb Ddrafft Fanwl hon, sy'n darparu manylion am y penderfyniadau gwario unigol ym mhob un o'n portffolios a'n tablau BEL, yn cael ei chyhoeddi ar 3 Tachwedd 2025.

Yn dilyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft gan y Senedd, bydd Cyllideb Derfynol 2026-27 yn cael ei chyhoeddi ar 20 Ionawr 2026, gyda dadl a phleidlais yn y Senedd ar 27 Ionawr 2026.

## Dogfennau'r Gyllideb

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn ar y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ar ein tudalen we Cyllideb Ddrafft 2026-27:

- Tablau wedi'u diweddaru sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario
- Tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL)
- Asesiad Effaith Integredig Strategol – Adroddiad Interim
- Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru 2026-27
- Y Cynllun Cyllid Seilwaith
- Costau gweithredu deddfwriaeth

Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol hefyd i'w gweld ar y dudalen honno.

## 2. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Trosolwg

Mae'r portffolio Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn darparu cyllid hanfodol i'r GIG sy'n cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, deintyddiaeth a gwasanaethau'r GIG yn y gymuned; ar gyfer gofal yn yr ysbyty; meddyginiaethau a thriniaethau, ac ar gyfer rhai agweddau ar ofal cymdeithasol a gofal plant a ariennir.

Y blaenoriaethau ar gyfer y MEG yw parhau i wella ansawdd a mynediad at wasanaethau'r GIG drwy symud mwy o ofal yn nes at y cartref; lleihau amseroedd aros hir ac oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty; buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal i helpu pobl i gadw'n iach a rheoli cyflyrau iechyd hirdymor; gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a pharhau i ariannu gofal plant i blant rhwng dwy a phedair oed i gefnogi rhieni i weithio. Mae hanner cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar.

**Ffigur 2.1: Dyraniadau'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 12,161,714 | 259,334 | 1,703 | 12,422,751 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 614,030 | 12,281 | -561 | 625,750 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **12,775,744** | **271,615** | **1,142** | **13,048,501** |

### Cyllid ychwanegol

Mae cynnydd chwyddiannol i'r MEG yn golygu £259m yn ychwanegol mewn cyllid adnoddau, sy'n rhoi cyfanswm cyllideb o £12.4bn yn y Gyllideb Ddrafft hon. Mae hyn yn fwy na 55% o gyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru.

O ran cyfalaf cyffredinol, mae £12.3m yn ychwanegol sy'n mynd â'r dyraniad cyfalaf llawn i £626m sydd ychydig yn llai na 20% o gyllideb cyfalaf gyfan Llywodraeth Cymru.

### Iechyd

Bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn parhau i fuddsoddi mwy na £11.7bn i gefnogi gwasanaethau rheng flaen y GIG. Mae'r holl gyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer y MEG wedi'i ddyrannu i brif BEL y GIG i gefnogi gwasanaethau'r GIG. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi codiad cyflog yn 2026-27, ymrwymiadau cyflog ehangach o fewn y MEG ac effaith cylchol ymrwymiadau presennol, sy'n gysylltiedig â'r gweithlu i raddau helaeth. Ynghyd

â'r codiadau a ddarparwyd yn 2025-26, mae hwn yn fuddsoddiad ychwanegol o £794m o gyllid adnoddau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu galw cynyddol am wasanaethau ar adeg pan fo costau gofal, gan gynnwys staffio a thriniaeth, yn cynyddu. Bydd y cyllid adnoddau ychwanegol a ddyrennir ar y cam hwn yn helpu'r GIG i ddiwallu rhai o'r costau hynny. Bydd angen i sefydliadau'r GIG barhau i sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd yn 2026-27, ac rydym yn cydnabod y bydd hyn yn parhau i fod yn heriol. Mae arbedion ac effeithlonrwydd sylweddol wedi'u cyflawni dros y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â gwelliannau mewn perfformiad a chynhyrchiant. Bydd angen i'r byrddau iechyd barhau i ganolbwyntio ar y ddwy flaenoriaeth, sef cynhyrchiant a pherfformiad, gan gael gwared ar niwed, gwastraff ac amrywiadau. Bydd rhoi argymhellion Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG yn llawn yn cefnogi'r agenda heriol hon.

Yn unol â'n huchelgeisiau traws-sector i ddarparu System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru, mae rhaglen drawsnewid fawr ar y gweill, o dan arweiniad Prif Swyddog Meddygol Cymru, i newid o leoliad ysbyty drwy arfer i fodel cymunedol o'r cychwyn. Bydd hyn yn cefnogi ein huchelgais i symud mwy o ofal iechyd a gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a gofal yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys symud adnoddau, defnyddio timau amlddisgyblaethol, gwella cydgysylltu lleol drwy glystyrau gofal sylfaenol, a moderneiddio contractau meddygon teulu i ganolbwyntio ar ofal yn y gymuned a llai o alw am ysbytai. Mae strategaethau allweddol yn cynnwys cyflwyno technolegau diagnostig newydd i hwyluso gofal cynharach mewn lleoliadau sylfaenol, grymuso dinasyddion, ac ailgynllunio gwasanaethau o amgylch anghenion lleol a pharhad perthynol gofal.

Bydd angen i'r byrddau iechyd barhau i drawsnewid y ffordd y maent yn darparu llwybrau gofal a gwasanaethau, ar y cyd â gofal cymdeithasol. Bydd ein cyllid cyfalaf yn cefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o wasanaethau rhanbarthol a gwelliannau mewn gofal iechyd cymunedol.

Bydd y cynnydd mewn cyllid cyfalaf hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r GIG i ddod yn fwy cynhyrchiol drwy fuddsoddi mewn cyfarpar modern, dibynadwy a thechnoleg ddigidol yn ogystal â gwella ystad y GIG. Gall hyn helpu i atal colli cynhyrchiant o fewn y GIG a gwella bregusrwydd a chynaliadwyedd seilwaith.

Rydym yn dal i gefnogi lefel bresennol y gyllideb addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG. Mae hyn yn cynnwys ehangu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a lleoedd hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig ychwanegol, gan sicrhau ein bod yn hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Bydd yr ymrwymiad buddsoddi a pholisi a wnaethom yn 2025-26 ar y Cynllun Iechyd Menywod a'r dull a arweinir gan y GIG i wella darpariaeth gwasanaethau iechyd menywod yn parhau i 2026-27. Bydd yn sicrhau bod profiadau menywod yn cael eu clywed a'u cydnabod a bod iechyd menywod yn cael ei sefydlu'n gadarn yn flaenoriaeth i'r GIG.

Gan gydnabod pwysigrwydd buddsoddiadau iechyd ataliol, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sgrinio a brechu. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn nodi rhai materion iechyd yn gynharach ac, yn achos brechu, yn atal salwch mwy difrifol yn nes ymlaen. Byddwn hefyd yn cynnal yr arian sydd wedi'i neilltuo i iechyd meddwl o fewn dyraniad y GIG, a fydd yn fwy na £840m yn 2026-27.

Gan gydnabod rôl bwysig y sector hosbisau yn cefnogi'r GIG, gwnaethom ymrwymo cymorth ychwanegol o £3m yn 2025-26 a bydd hyn yn parhau tan 2026-27, gan gael ei wneud yn rhan o'r llinell sylfaen yn gylchol fel rhan o ddull diwygiedig o gomisiynu gofal diwedd oes.

Y Gyllideb Ddrafft yw'r man cychwyn ar gyfer y Gyllideb hon – nid ei diwedd. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i hadeiladu ar sylfaen cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol i'r MEG, ac i'r GIG. Ein huchelgais gadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27 a pharhau i helpu'r GIG i fodloni'r pwysau gwirioneddol y mae'n eu hwynebu.

## Gofal Cymdeithasol

Mae'r cyllid ychwanegol o £30m ar gyfer gofal cymdeithasol, a oedd yn rhan o gytundeb Cyllideb 2025-26, wedi helpu'r awdurdodau lleol a'r GIG i gydweithio, gan gynnwys drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, i dargedu oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a gwella'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol mewn cymunedau lleol. Bydd y cyllid yn parhau yn 2026-27 i sicrhau bod pobl yn gallu gadael yr ysbyty yn gyflym, gyda'r pecyn cywir o ofal a chymorth, pan fyddant yn ffit yn feddygol i wneud hynny, gan wella llif drwy'r system iechyd a gofal ehangach.

Mae'r prif gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn dod yn uniongyrchol oddi wrth yr awdurdodau lleol ac fe'i cefnogir drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol. Drwy hyn, rydym yn parhau i gefnogi talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hyn yn gwella cyflog i weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal cartref, gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth, a chynorthwywyr personol.

Er bod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei rhoi drwy ein setliad llywodraeth leol, mae'r cyllid gan y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu cymorth hanfodol ychwanegol i'r awdurdodau lleol, y GIG a byrddau partneriaeth rhanbarthol o ystod o grantiau. Caiff cyllid wedi'i gyfeirio o fwy na £175m ei gynnal yn 2026-27 drwy'r rhaglen bresennol i ddileu elw o ofal plant – sy'n flaenoriaeth ddeddfwriaethol allweddol.

## Gofal plant

Byddwn yn parhau i gefnogi ein Cynnig Gofal Plant, sy'n darparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg feithrin wedi'u hariannu i blant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, ynghyd â chefnogi ein darpariaeth gofal plant flaenllaw sef Dechrau'n Deg i blant dwy oed. Buddsoddwyd £50m yn ychwanegol yn 2025-26 sy'n cynnwys y £30m a

ddarparwyd fel rhan o gytundeb cyllideb 2025-26, ac mae hyn i gyd yn rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27. Mae'r cyllid ychwanegol hefyd wedi cefnogi cynnydd yn y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant sy'n cyflenwi rhaglenni gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi sicrhau cynaliadwyedd y sector, cefnogi'r gweithlu a gwella lleoliadau a'r dewis i rieni.

# 3. Tai a Llywodraeth Leol

## Trosolwg

Mae'r portffolio Tai a Llywodraeth Leol yn darparu cyllid i gefnogi llywodraeth leol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw yn ogystal â chyllid ar gyfer cartrefi a gwasanaethau cymorth tai. Mae'r awdurdodau lleol yn bartner allweddol wrth ddarparu ystod eang o wasanaethau, y mae pobl ledled Cymru yn dibynnu arnynt ac yn eu defnyddio bob dydd, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac ysgolion. Mae'r buddsoddiad a wneir yn y Gyllideb Ddrafft hon drwy'r setliad llywodraeth leol yn ategu'r gwasanaethau hyn.

Mae'r dyraniadau tai ac adfywio yn y Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ein hymdrech barhaus i ddarparu rhagor o gartrefi ledled Cymru, yn enwedig drwy dai cymdeithasol. Gwyddom fod hyn yn gallu lleihau tlodi, gwella iechyd corfforol a meddyliol gydol oes pobl, ysgogi twf economaidd – ac yn hollbwysig – rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

**Ffigur 3.1: Dyraniadau'r MEG Tai a Llywodraeth Leol**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 5,558,587 | 122,801 | 8,641 | 5,690,029 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 1,191,280 | 23,826 | 0 | 1,215,106 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 82,508 | 82,508 |
| **Cyfanswm** | **6,749,867** | **146,627** | **91,149** | **6,987,643** |

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol drafft ar 24 Tachwedd 2025. Bydd penderfyniadau polisi ynghylch ardrethi annomestig (NDR) yn cael eu gwneud ar ôl Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU ar 26 Tachwedd, felly mae'r swm dosbarthadwy NDR a gynhwysir yn y setliad drafft yn seiliedig ar gynnal refeniw mewn termau real.

## Cyllid ychwanegol

Mae'r codiadau chwyddiannol i'r MEG yn darparu £122.8m o adnoddau ychwanegol a £23.8m o gyfalaf cyffredinol yn y Gyllideb Ddrafft hon. Mae newidiadau eraill yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer cyllid gwaelodol i lywodraeth leol a newidiadau technegol.

## Llywodraeth Leol

Mae awdurdodau lleol yn hanfodol o ran darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae pobl ledled Cymru yn dibynnu arnynt — o ysgolion a gofal cymdeithasol i gasglu gwastraff a chymorth cymunedol. Mae tua 27% o wariant yr awdurdodau lleol yn wariant ar ofal cymdeithasol ac ychydig dros un rhan o dair yn wariant ar ysgolion ac addysg. Mae

llywodraeth leol hefyd yn bartner allweddol o ran ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn helpu i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i barhau i ddiwallu anghenion cymunedau ledled Cymru. Ond dim ond y man cychwyn ydyw. Ein huchelgais cadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae'r llywodraeth yn parhau i fod yn agored i gydweithio â phleidiau eraill yn y Senedd i gytuno ar gyllideb fwy uchelgeisiol, gan bwysleisio'r cyfrifoldeb ar y cyd dros basio cyllideb er budd dinasyddion Cymru.

Mae llywodraeth leol mewn sefyllfa unigryw oherwydd y rheolau y mae rhaid iddi eu dilyn wrth bennu cyllidebau. Rydym yn benderfynol o ddarparu'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, a fydd yn diogelu swyddi a gwasanaethau rheng flaen ac na fydd yn arwain at gynnydd mawr yn y dreth gyngor.

Rydym yn cefnogi'r awdurdodau lleol drwy sicrhau bod y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn ystod 2025-26 ar gyfer y sector cyhoeddus i dalu'r cynnydd yng nghostau Yswiriant Gwladol Llywodraeth y DU, ac i fodloni dyfarniadau cyflog athrawon a staff yr awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn y cyllid sylfaenol ar gyfer 2026-27. Mae'r cynnydd o 2% ar gyfer chwyddiant cyffredinol a 2.2% ar gyfer chwyddiant cyflogau, ynghyd â'r cynnydd a ragwelir mewn ardrethi annomestig, yn rhoi cynnydd o £156m i'r setliad llywodraeth leol, sef cynnydd cyfartalog ar sail tebyg at ei debyg o 2.5%. Rydym hefyd yn darparu £8.6m arall gyda'r nod o sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol unigol yn cael cynnydd o lai na 2.3%.

Ym mis Gorffennaf, llofnododd Llywodraeth Cymru a chynghorau lleol Gytundeb Partneriaeth Strategol i gryfhau'r ffordd y maent yn cydweithio. Mae'n nodi ymrwymiad cyffredin i dryloywder ariannol, cydweithredu a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer ymgysylltu cynnar ar gyllidebau ac yn cefnogi'r uchelgais ar gyfer setliadau ariannol amlflwyddyn. Drwy gydweithio a lleihau dyblygu, mae'r cytundeb yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn fwy effeithlon a meithrin gwydnwch ariannol. Mae'n parchu hefyd rôl democratiaeth leol wrth fynd i'r afael â heriau ariannol a rennir.

## Tai ac Adfywio

O ran adnoddau, ein blaenoriaeth yw cefnogi pwysau chwyddiant yn y Grant Cymorth Tai a gwasanaethau atal digartrefedd eraill. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i roi terfyn ar ddigartrefedd ac yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r gwasanaethau hyn yn ei chwarae mewn atal ac ymyrraeth gynnar. Rydym yn darparu £2.3m drwy fecanwaith yn BEL y Grant Cynnal Refeniw i dalu'r costau cychwynnol i'r awdurdodau lleol a nodwyd ym Mil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

Rydym yn defnyddio cynnydd chwyddiannol ar draws holl linellau cyllidebau cyfalaf cyffredinol. Bydd hyn yn cefnogi ein gwaith parhaus i adeiladu cartrefi newydd a

datgarboneiddio, i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le diogel a gweddus i'w alw'n gartref. Bydd ein cyllideb cyfalaf hefyd yn parhau i sbarduno adfywio yng nghanol ein trefi.

Yn ogystal, mae £26.8m pellach o gyfalaf trafodiadau ariannol ar gael i gefnogi benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) ar gyfer adeiladu tai. Rydym hefyd yn buddsoddi £3.1m yn ychwanegol i ymestyn ein cynllun cartrefi gwyrdd drwy Fanc Datblygu Cymru.

Mae'r cynllun benthyciadau datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi bod yn fecanwaith allweddol ar gyfer darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo. Mae'r buddsoddiadau hyn yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer datblygu, gyda datblygiadau newydd yn ymgorffori nodweddion gwyrdd ychwanegol, megis ffynonellau ynni adnewyddadwy i helpu i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. I'r rhai sydd eisoes yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, rydym yn buddsoddi i helpu i ôl-osod a datgarboneiddio eu cartrefi drwy ariannu pympiau gwres a phaneli solar.

Er mai cartrefi cymdeithasol yw prif ffocws ein buddsoddiad, rydym yn buddsoddi yn y cynllun Cymorth i Brynu unwaith eto i gefnogi pobl i brynu a bod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Yn 2026-27, byddwn yn darparu cyfalaf trafodiadau ariannol o £58.1m i Cymorth i Brynu - Cymru, sydd wedi cefnogi miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o fod yn berchen ar gartref ers cael ei lansio ym mis Ionawr 2014 gyda bron i 15,000 o gartrefi newydd wedi'u prynu hyd yn hyn. Mae hwn yn gynllun nad yw bellach ar gael i bobl yn Lloegr.

## Tân

Yn ogystal â chodiadau chwyddiannol sy'n ymwneud â thâl a phwysau eraill, mae dyraniadau ychwanegol penodol wedi'u gwneud i gefnogi gallu gwydnwch cenedlaethol y gwasanaeth tân ac achub a chyfundrefn arolygu gryfach y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys £200,000 i gynnal y gallu arbenigol i ymateb i drychinebau gan gynnwys llifogydd mawr, digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, ac adeiladau yn cwympo.

Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi cyfundrefn arolygu gryfach, sy'n elfen allweddol ar fonitro perfformiad a gwella awdurdodau tân ac achub. Mae'r broses bresennol yn rhy gul ac yn brin o adnoddau. Mae gwella'r swyddogaeth arolygu yn ymateb i bryderon sylweddol ynghylch diwylliant a chyflawni ymateb gweithredol.

# 4. Addysg

## Trosolwg

Mae'r cyllid ar gyfer Addysg yn y Gyllideb Ddrafft hon yn cael ei flaenoriaethu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gwella cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd, codi safonau, a chynyddu lefelau presenoldeb yn ein hysgolion a'n colegau. Yn ganolog i'r ymdrechion hyn mae ymrwymiad i hyrwyddo llesiant ar draws ysgolion, sy'n sylfaenol i lwyddiant pob diwygiad.

Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ariannu ysgolion yn uniongyrchol, gyda chymorth y setliad blynyddol ar gyfer llywodraeth leol, mae cyllid y MEG Addysg yn cefnogi ein hymrwymiad i roi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, ynghyd â'n cenhadaeth genedlaethol i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb, drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr.

**Ffigur 4.1: Dyraniadau'r MEG Addysg**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 1,812,724 | 37,414 | 1,766 | 1,851,904 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 374,500 | 7,490 | 0 | 381,990 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | -1,968 | -1,968 |
| **Cyfanswm** | **2,187,224** | **44,904** | **-202** | **2,231,926** |

## Cyllid ychwanegol

Mae'r cynnydd chwyddiannol i'r MEG yn darparu £37.4m o gyllid adnoddau a £7.5m o gyllid cyfalaf cyffredinol. Ymhlith yr adnoddau pellach a ddyrennir mae £0.7m sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iawndal TAW mewn perthynas â lleoliadau ôl-16 i ddiogelu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, a £0.7m ar gyfer darpariaeth drochi yn y Gymraeg i gefnogi *Cymraeg 2050* a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

## Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi bod yn cyflwyno ein diwygiadau addysg ledled Cymru drwy weithredu'n raddol Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018, ac mae ysgolion a lleoliadau, awdurdodau lleol a cholegau wedi bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol newydd.

Gan adeiladu ar y £10m ychwanegol a ddyrannwyd yn 2025-26 i gefnogi'r diwygiadau hyn drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol, rydym yn buddsoddi £5m arall i wella cysondeb cenedlaethol a darpariaeth gynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Bydd hyn yn cynyddu'r cyllid a ddyrennir yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i

ariannu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, drwy elfen ddiwygio Grant Addysg Awdurdodau Lleol, i £37m y flwyddyn o 2026-27.

I gydnabod ein hymrwymiad i symud Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i raddfa gyflog arweinyddiaeth, mae £4m wedi'i ychwanegu i linell sylfaen grant cynnal refeniw llywodraeth leol yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol ar gyfer 2026-27.

Mae gwella'r cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach er mwyn nodi a diwallu anghenion pobl ifanc sydd ag ADY yn hanfodol i gael gwared ar y rhwystrau sy'n eu hatal rhag parhau ag addysg, hyfforddiant a llwybrau cyflogaeth. Bydd Medr yn defnyddio £4.1m o'i ddyraniad cyllidebol ychwanegol i gynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol i ddysgwyr, a chapasiti adnoddau systemau ADY mewn colegau.

## Lleoliadau arbenigol ôl-16

Bydd £3m arall yn cefnogi dysgwyr dros 16 oed sydd angen mynediad at golegau ôl-16 arbenigol annibynnol, i adlewyrchu'r costau a'r galw uwch am leoliadau i bobl ifanc na allent fel arall gael addysg a hyfforddiant addas ar gyfer eu hanghenion addysgol rhesymol, a'r broses arfaethedig o drosglwyddo'r cyfrifoldeb ariannol i awdurdodau lleol o fis Ebrill 2026. Ynghyd â'r dyraniad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer TAW mewn perthynas â'r lleoliadau hyn, mae hyn yn cynyddu'r gyllideb i £19.9m yn 2026-27.

## Gwella Safonau a Chymorth i Ddysgwyr

Drwy ein Grant Addysg Awdurdodau Lleol sydd wedi'i symleiddio, rydym yn darparu £8.9m arall i gefnogi safonau ysgolion a dysgu sylfaen, ac i ddarparu mwy o gyllid i athrawon a staff cymorth mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu'r gefnogaeth i lefelau presenoldeb fel modd o gynyddu lefelau cyrhaeddiad, drwy roi £2.5m ychwanegol i awdurdodau lleol drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer ymyriadau sy'n mynd i'r afael â dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a chefnogi dysgwyr. Bydd £0.7m ychwanegol yn mynd i'r gyllideb Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant i gefnogi ysgolion a'r gweithlu addysg i ymgorffori arferion sy'n ystyriol o drawma ac atal hunanladdiad.

Drwy elfennau Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050 y Grant Addysg Awdurdodau Lleol, rydym yn blaenoriaethu cyllid i ysgolion ac awdurdodau lleol, ac mae £418.6m yn cael ei fuddsoddi drwy'r Grant yn 2026-27, cynnydd o fwy na 4%.

Yn dilyn y cynnydd o £10m i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yn 2025-26, mae £2m ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn 2026-27 i gefnogi llythrennedd a rhifedd. Mae rhaglen cymorth grant Cwricwlwm i Gymru hefyd yn darparu £44m dros dair blwyddyn ariannol, hyd at fis Mawrth 2028. Mae Hwb yn rhaglen hanfodol sy'n sylfaenol i drawsnewid addysg yn ddigidol, ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Fe wnaethom fuddsoddi £1.6m ychwanegol yn Hwb yn 2025-26, ac mae £0.3m arall yn cael ei ddyrannu yn 2026-27.

Mae £0.3m ychwanegol yn cefnogi ein cyfranogiad yn yr astudiaeth o gynnydd mewn llythrennedd darllen rhyngwladol (PIRLS) a'r tueddiadau mewn astudiaethau mathemategol a gwyddoniaeth rhyngwladol (TIMSS), er mwyn helpu i ddeall sgiliau ein dysgwyr mewn darllen a rhifedd yn well ar lefel gynradd.

Bydd Estyn yn cael £1.3m yn fwy yn 2026-27, sy'n cydnabod ei rôl barhaus o ran cefnogi gwelliannau mewn safonau, a bydd yn ei gefnogi yn ei ddyletswyddau statudol ym maes arolygu o dan y fframwaith arolygu chwe blynedd newydd, a lansiwyd ym mis Medi 2024.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn parhau i gynnig lefel hael o grantiau i fyfyrwyr nad ydynt i'w had-dalu, gan dargedu'r myfyrwyr hynny a fydd yn elwa fwyaf. Disgwylir cyfanswm gwariant o £269m ar grantiau myfyrwyr yn 2026-27, ar sail y rhagolygon diweddaraf. Rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg i ddysgwyr ifanc ar £40 yr wythnos, ac yn addasu ymhellach y trothwyon cymhwysedd ar sail incwm aelwydydd yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae £5.5m ychwanegol ar gyfer cyllideb gweinyddu cymorth i fyfyrwyr yn cydnabod y costau presennol a delir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ddarparu cymorth statudol i fyfyrwyr.

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i gefnogi darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd, ac mae cyllideb o £93.5m wedi'i diogelu yn 2026-27, ar ôl cyflwyno'r rhaglen yn llawn i bob grŵp blwyddyn o fis Medi 2024. Mae tua 174,000 o ddysgwyr yn gymwys bellach i gael pryd o fwyd. Mae'r ymyriad trawsnewidiol hwn yn gam pwysig tuag at fynd i'r afael â thlodi a newyn ymhlith plant, ac mae eisoes yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru.

## Addysg drydyddol

Rydym yn dyrannu £21.5m ychwanegol drwy Medr i gefnogi addysg uwch ac addysg bellach yn 2026-27. Bydd hyn yn darparu cymorth pellach i ADY mewn addysg bellach, yn ein galluogi i barhau i sicrhau cydraddoldeb cyflog mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech, ac yn cefnogi costau lleoliadau addysg gychwynnol athrawon ar gyfer darparwyr addysg uwch. Bydd hefyd yn rhoi hwb i'r gronfa ariannol wrth gefn sy'n cefnogi dysgwyr y gallai ystyriaethau ariannol amharu ar eu mynediad at addysg bellach.

Mae ein rhaglen Prentisiaethau Iau yn cynnig llwybr amgen i ddysgwyr 14-16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, ond sydd â sgiliau addas ar gyfer dysgu galwedigaethol. Bydd cyllid ychwanegol drwy Medr yn dod â chyfanswm ein gwariant blynyddol ar y rhaglen i £1m.

## Buddsoddi cyfalaf

Bydd y rhan fwyaf o gynnydd cyfalaf y MEG yn parhau i gefnogi ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy sefydledig a llwyddiannus mewn ysgolion a cholegau, a rhoddir £7.1m ychwanegol yn 2026-27. Yn 2024, trosglwyddwyd i raglen dreigl naw mlynedd uchelgeisiol, sy'n cynnwys 329 o brosiectau newydd ar draws yr ystad addysg, a buddsoddiad arfaethedig o £5.5bn (ar sail costau 2024) dros y cyfnod buddsoddi hwn.

Mae'r buddsoddiad hwn yn ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi £1.5bn yn ystod tymor cyfredol y Senedd.

Yn ogystal â chyfalaf traddodiadol, mae'r Rhaglen yn llwyddo i ddarparu ysgolion a cholegau newydd drwy ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) arloesol a ariennir drwy gyllid adnoddau, sy'n manteisio ar fuddsoddiad o £500m arall (cyfwerth â chyfalaf) yn ein Hystad Addysg. Mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer MIM a'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ehangach yn cael ei diogelu ar £15.8m yn 2026-27.

## 5. Trafnidiaeth

### Trosolwg

Mae cyllidebau'r portffolio Trafnidiaeth wedi'u datblygu ar sail pedair prif flaenoriaeth:

- Cwblhau'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, yn enwedig Llinellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno trenau tram newydd
- Parhau i wella diogelwch a gwydnwch y rhwydwaith ffyrdd
- Gwella'r fflyd fysiau yng Nghymru a pharatoi ar gyfer masnachfreinio
- Buddsoddi mewn cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

**Ffigur 5.1: Dyraniadau'r MEG Trafnidiaeth**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 668,325 | 13,988 | 15,061 | 697,374 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 528,797 | 10,576 | 12,000 | 551,373 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,197,122** | **24,564** | **27,061** | **1,248,747** |

### Cyllid ychwanegol

Bydd y portffolio Trafnidiaeth yn derbyn £29m o gyllid adnoddau ychwanegol a £23m o gyllid cyfalaf ychwanegol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2026-27. Mae hyn yn cynnwys cynnydd chwyddiannol a chyllid at ddibenion penodol, gan gynnwys y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd a pharhau â gwasanaeth rheilffordd Calon Cymru, a oedd yn rhan o gytundeb Cyllideb 2025-26.

Mae hyn hefyd yn cynnwys cyllid i gyfrif am y cynnydd yng nghostau adnoddau ffordd yr A465 a Llinellau Craidd y Cymoedd.

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) i nodi cyfleoedd ar gyfer lleihau costau a gwneud y mwyaf o refeniw gan gynnal gwasanaethau hanfodol. Byddwn yn gweithio gyda TrC yn 2026-27 i flaenoriaethu gwasanaethau ac anelu at ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o £20m ar wariant adnoddau rheilffyrdd a bysiau a £38m ar gyfalaf.

### Rheilffyrdd

Rydym yn cadw at ein hymrwymiad i'n gwasanaeth rheilffyrdd, drwy ddyrannu £12.6m o gyllid adnoddau ychwanegol yn y gyllideb hon, gyda £1.25m i adfer gwasanaethau ar

linell Calon Cymru a £11.3m i wrthbwyso'r cynnydd mewn cymhorthdal yn unol â'n gwaith trawsnewid parhaus ar wasanaethau rheilffyrdd Cymru.

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad mewn cynlluniau seilwaith rheilffyrdd yn 2026-27 ar gyfer gwelliannau seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, darparu'r trenau newydd ar ein rhwydwaith a dechrau Cam 1a prosiect Cledrau Croesi Caerdydd. Bydd y buddsoddiad yn cyflawni gwelliannau seilwaith ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys cwblhau gwaith trydaneiddio llinell Coryton a darnau ym Mae Caerdydd, gwaith uwchraddio signalau Heol y Frenhines Caerdydd, ynghyd â dod â'r trenau tram dosbarth 398 newydd ar waith ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd ein buddsoddiad yn ei gwneud yn bosibl cychwyn ar brosiect seilwaith Cledrau Croesi Caerdydd a fydd yn galluogi cysylltedd y rhwydwaith rheilffyrdd o'r Cymoedd i Gaerdydd Canolog, y Bae a gweddill De-ddwyrain Cymru.

## Ffyrdd

Rydym yn buddsoddi £4m pellach o gyllid adnoddau yn y gyllideb hon drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd. Ar ben newidiadau'r llynedd, mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i hunangyllido tua £120m o gyllid cyfalaf i'w wario ar reoli priffyrdd a thrwsio ffyrdd lleol. Roedd hyn yn rhan o gytundeb y Gyllideb yn 2025-26 ac mae'n cyd-fynd â pharhad ein Cronfa Atal Tyllau gwerth £25m o fewn cyllideb y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

Mae'r BEL Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Strategol wedi cynyddu £8.9m o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26. Mae hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a pholisi i gynnal asedau seilwaith mewn cyflwr y gellir eu gwasanaethu a gwella seilwaith amgylcheddol a dulliau cynaliadwy lle bo hynny'n ymarferol. Mae costau chwyddiannol yr Asiantau Cefnffyrdd a'r cadwyni cyflenwi o ran cyflogau, deunyddiau a pheiriannau yn golygu y bydd angen codiadau er mwyn iddynt allu ymgymryd â'r un math o lefelau o waith cynnal a chadw ac adnewyddu ag mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd gwaith yn parhau ar brosiectau mawr yn 2026-27, gan gynnwys pont afon Dyfrdwy a'r A465 Dowlais Top i'r A470, yn unol ag ymrwymiadau contractiol.

Gan gydnabod ein blaenoriaeth barhaus o ran y contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol, darparwyd dyraniad ychwanegol o £9.8m o gyllid adnoddau yn y gyllideb hon i gwmpasu blwyddyn lawn o waith gweithredu contract Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465.

## Bysiau

Rydym yn blaenoriaethu ein buddsoddiad mewn bysiau gyda £8.9m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon i fuddsoddi yn y fflyd fysiau a depos wrth i ni baratoi ar gyfer masnachfreinio'r bysiau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddylunio a chynllunio gwasanaethau bysiau sy'n diwallu anghenion cymunedau, rydym wedi cynyddu'r gyllideb adnoddau o £2.7m i £143m, gan gynnwys £1.5m i ymestyn y cynllun peilot tocynnau bws £1 i bobl ifanc i blant 5 i 15 oed.

Mae'r galw am wasanaethau bysiau yn cynyddu ledled Cymru, sy'n gadarnhaol ac yn cyd-fynd â'n polisi cyffredinol i annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac opsiynau teithio llesol. Fodd bynnag, oherwydd natur y cyllidebau hyn, bydd angen rheoli'r galw cynyddol am deithio ar fysiau, ynghyd â chostau cynyddol, yn ofalus.

## Trafnidiaeth Ranbarthol

Rydym yn buddsoddi £6m arall yn 2026-27 i gefnogi adolygiad Burns ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn gysylltiedig â rheilffyrdd. Byddwn yn darparu cyllid ychwanegol i ddechrau adeiladu'r prosiectau a argymhellir gan Gomisiwn Burns i wella teithio ar hyd coridor yr M4. Mae hyn yn dilyn ein buddsoddiad mewn datblygu a dylunio ac yn ategu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu pum gorsaf reilffordd newydd yn y coridor.

Byddwn yn cynnal lefel y grantiau trafnidiaeth ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi buddsoddiad mewn cerdded, olwyno a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, diogelwch ar y ffyrdd, gwefru cerbydau trydan a ffyrdd lleol.

Yn 2026-27 byddwn yn moderneiddio ein grantiau i roi mwy o lais i arweinwyr lleol o ran buddsoddi yn eu rhanbarthau ac i leihau beichiau gweinyddol, yn unol â'n dull gweithredu cyffredinol o leihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Bydd cyllid yn cael ei dargedu at y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, sydd wedi'u llunio gan y pedwar cyd-bwyllgor corfforedig.

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad yn Rhwydwaith Gogledd Cymru, ein cynllun uchelgeisiol i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, rheolaidd iawn yn y Gogledd.

## 6. Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

### Trosolwg

Mae'r portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer 2026–27 yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chadw a chreu swyddi gwyrdd.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn parhau i dargedu buddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cefnogi'r sector amaethyddiaeth, gwella ansawdd dŵr, rheoli risg llifogydd, bioamrywiaeth ac adfer natur, diogelwch tomenni glo, a chefnogi'r diwydiant coedwigaeth a phren.

Mae cyllid o'r portffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig hefyd yn cefnogi iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys dileu clefydau anifeiliaid fel TB gwartheg, ffliw adar ac argyfyngau iechyd a lles anifeiliaid eraill, gan gynnwys y rhai sy'n peri bygythiadau i iechyd y cyhoedd.

**Ffigur 6.1: Dyraniadau'r MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 568,019 | 11,684 | 6,401 | 586,104 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 253,111 | 5,062 | 53,984 | 312,157 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 10,200 | 10,200 |
| **Cyfanswm** | **821,130** | **16,746** | **70,585** | **908,461** |

### Cyllid ychwanegol

Bydd cyllidebau Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn gweld cynnydd chwyddiannol o £11.7m o adnoddau a £5.1m o gyfalaf cyffredinol ar gyfer 2026-27. Mae cyllid ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ar gyfer diogelwch tomenni glo a chyfleusterau'r ffin.

Mae cyllid ychwanegol ar gyfer cynnydd chwyddiannol yn cael ei ddarparu i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol i gynnal cyllid ar gyfer y sector amaethyddol ac i fuddsoddi mewn datblygu'r gweithlu, yn enwedig ym meysydd arbenigol rheoli risg llifogydd, draenio, ansawdd dŵr, tomenni segur, a gwarchod natur.

### Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn blaenoriaethu cymorth i'r sector amaethyddol cyn lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn 2026. Rydym yn cynnal y gyllideb o £238m i annog

ffermwyr i ymuno â'r SFS, fel y gallant ddechrau elwa ar y manteision cyn gynted â phosibl. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r cymorth ariannol hwn i ffermwyr gan eu bod wrth galon cymunedau ac yn stiwardiaid ein tir ledled Cymru. Rydym yn cydnabod bod y sector amaethyddiaeth yn wynebu newidiadau mawr, felly byddwn yn parhau i ddiogelu cyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ar gyfer y ffermwyr hynny nad ydynt eto'n barod i ymuno â'r cynllun newydd, gan ddarparu parhad o ran cymorth wrth iddynt drosglwyddo i fywyd y tu hwnt i BPS.

Mae cyllid adnoddau a chyfalaf ychwanegol o fwy na £100m yn y Gyllideb Ddrafft hon i gefnogi ffermwyr i wella perfformiad amgylcheddol ac ariannol eu busnesau yn ystod y cyfnod cyn, ac yn cynnwys, cyflwyno haenau Opsiynol a Chydweithredol yr SFS.

## Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol

Rydym yn darparu ar gyfer buddsoddiad pellach o £43m i gefnogi diogelwch tomenni glo segur a chostau gweithredu sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd sy'n cynnwys sefydlu'r corff newydd. Mae hyn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad mewn diogelwch tomenni glo o 2021 hyd at fis Mawrth 2027 i £145m.

Mae diogelwch cronfeydd dŵr yn hanfodol bwysig hefyd o ystyried y risgiau os nad oes gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud arnynt a'r newidiadau posibl i'r hinsawdd yng Nghymru. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y gyllideb gyda dyraniad o £4.9m ar gael ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr.

Mae mwy na £377m wedi'i fuddsoddi mewn rheoli risg llifogydd yn nhymor y Senedd hon i leihau'r risg o lifogydd i gymunedau ledled Cymru, gyda'r cyllid uchaf erioed eleni yn codi i £80m. Un o lwyddiannau diweddar y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yw cwblhau Cynllun Lliniaru Llifogydd Glyn-nedd gwerth £3.6m a fydd yn darparu manteision hirdymor i dros 270 o eiddo yn yr ardal. Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y rhaglen ar draws ardaloedd eraill o Gymru yn 2026-27.

Mae £600,000 ychwanegol o gyllid adnoddau yn cael ei ddyrannu i adeiladu ar berfformiad Cymru, sydd gyda'r gorau yn y byd o ran ailgylchu, ac i wireddu'r cyfleoedd economaidd o osgoi gwastraff drwy fuddsoddi yn yr economi gylchol. Bydd hyn yn cefnogi awdurdodau lleol i wella eu gwasanaethau gwastraff, mynd i'r afael â throseddau gwastraff a bwrw ymlaen â diwygiadau mewn meysydd allweddol fel lleihau gwastraff bwyd.

Bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn ariannu gwaith ehangu Coedwig Genedlaethol Cymru ymhellach gyda buddsoddiad o fwy na £7.5m, gan gyfrannu at ein huchelgeisiau sero net. Yn dilyn lansio'r strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren, *Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru,* ym mis Gorffennaf 2025, bydd mwy na £3m yn cael ei fuddsoddi yn y sector, gan gynnwys drwy gynllun buddsoddi cyfalaf a chymorth ar gyfer darparu sgiliau.

Mae ein huchelgais i wella bioamrywiaeth a helpu i gysylltu pobl â natur yn cael ei gefnogi gan gyllideb o fwy na £6m i gynyddu cyflenwad a chapasiti yn y Rhaglen Rhwydweithiau

Natur ymhellach. Mae buddsoddiad parhaus o fwy na £15m yn cefnogi'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a phrosiectau natur lleol ledled Cymru.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwella ansawdd dŵr, gan ariannu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu argymhellion y Comisiwn Dŵr Annibynnol dros y blynyddoedd nesaf.

Byddwn yn darparu cyllid pellach gwerth £4m ar gyfer ein Gwasanaeth Ynni sy'n darparu cyngor a chymorth hanfodol i gyrff cyhoeddus sy'n gweithio tuag at ein huchelgais cyffredin o sector cyhoeddus sero net i Gymru erbyn 2030. Bydd buddsoddiad o fwy na £21m mewn cyllid grant a benthyciadau ar gyfer y sector cyhoeddus yn parhau, gan gynnwys cynnydd o 2% i'r cynllun Digarbon.

Bydd cyllid partneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cynyddu £2m yn unol â rhagolygon chwyddiant, a bydd yn cynnal cyllid i hybu eu capasiti i ymdrin â chydsyniadau seilwaith yn brydlon ac i ddarparu'r mewnbwn angenrheidiol yn y prosesau defnydd tir a chynllunio morol.

## Rheolaethau'r Ffin

Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn dyrannu £29m o gyfalaf a £4.2m o adnoddau i Raglen Rheolaethau'r Ffin. O'r cyllid hwn, mae'r swm cyfalaf llawn a £401,000 o'r cyllid adnoddau yn cael ei ddarparu gan Drysorlys EF, fel y cyhoeddwyd yn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025 a bydd yn cael ei adolygu a'i addasu'n rheolaidd i ddilyn unrhyw newidiadau polisi yn y dyfodol.

## Polisi Cyfiawnder, y Senedd a Diwygio Cyfansoddiadol

Mae cynnydd chwyddiannol yn cael ei ddarparu i'n galluogi i barhau i ymateb i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru a'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

Mae cyllid hefyd yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflawnodd yr argymhellion yn cynnig diwygiadau i sicrhau bod gan y Senedd y capasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau yn effeithiol.

## 7. Yr Economi, Ynni a Chynllunio

### Trosolwg

Blaenoriaethau allweddol portffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio yw cefnogi swyddi a thwf gwyrdd, gan gynnwys gwella'r system gynllunio. Rydym yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau, drwy fwrw ati i gefnogi pobl i gael swyddi o safon, sy'n ysgogi twf economaidd ac yn mynd i'r afael â thlodi. Rydym yn buddsoddi mewn pontio teg a ffyniant gwyrdd drwy ein rhaglenni ynni ac yn ysgogi twf economaidd cynaliadwy a gwydnwch trwy fuddsoddi ym Manc Datblygu Cymru, twristiaeth, allforion a mewnfuddsoddiad. Mae diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn hanfodol i'r gyllideb hon, gan gyfrannu tuag at lesiant meddyliol a chorfforol pawb.

**Ffigur 7.1: Dyraniadau MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 480,298 | 9,830 | 0 | 490,128 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 221,347 | 4,427 | 86,375 | 312,149 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 27,484 | 27,484 |
| **Cyfanswm** | **701,645** | **14,257** | **113,859** | **829,761** |

### Cyllid ychwanegol

Mae portffolio'r Economi, Ynni a Chynllunio wedi cael cynnydd chwyddiannol o £9.8m o gyllid adnoddau a £4.4m o gyllid cyfalaf cyffredinol. Darperir cyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn benodol ar gyfer bargeinion dinesig a thwf a gwaith datblygu Morglawdd Caergybi.

### Llwyfan ar gyfer pobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau, gan adlewyrchu pwysigrwydd cefnogi pobl i gael swyddi o safon, a fydd yn helpu i ysgogi twf economaidd ac yn mynd i'r afael â thlodi. Bydd buddsoddiad ychwanegol o £2m o gyllid adnoddau yn cefnogi ein rhaglen Twf Swyddi Cymru Plws, gan ein galluogi i adeiladu ar lwyddiant y rhaglen a pharhau i ateb y galw wrth i ni bontio i Raglen Cymorth Cyflogadwyedd newydd yn 2027.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen brentisiaethau flaenllaw gyda mwy o fuddsoddiad yn y gyllideb hon sy'n £146m bellach, a fydd yn sicrhau bod gan gyflogwyr fynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt a bod gan brentisiaid fynediad at gyfleoedd dysgu a gyrfaoedd o ansawdd uchel.

## Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd

Rydym yn parhau i gefnogi pedair Bargen Ddinesig a Thwf Cymru. Mae'r cymorth hwn yn arwydd o fuddsoddiad trawsnewidiol parhaus i ddarparu swyddi medrus, cynaliadwy a seilwaith i gymunedau, wedi'i deilwra i anghenion pob rhan o Gymru ac wedi'i lywio gan arweinwyr lleol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2026-27 yn £98.4m, sy'n cynnwys ein buddsoddiad o £22m a chyfraniad Llywodraeth y DU o £76.4m.

Gan gydnabod pwysigrwydd allforion a mewnfuddsoddiad i'r economi, rydym yn cynnal ein buddsoddiad ar £3.8m ar gyfer 2026-27. Bydd hyn yn cefnogi busnesau â'u twf allforion yn ogystal â denu mewnfuddsoddiad i Gymru, gan adeiladu ar y momentwm o Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru sydd i'w chynnal ym mis Rhagfyr 2025.

## Buddsoddi ar gyfer twf

Rydym yn parhau i flaenoriaethu ein cymorth i fusnesau Cymru drwy fuddsoddi £22m o gyllid adnoddau yng ngwasanaeth Busnes Cymru sy'n rhoi cymorth rhagweithiol ar gyfer busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaeth**.** Rydym hefyd yn darparu cyllid cyfalaf o £9.7m drwy ein Cronfeydd Cyllid Busnes i gefnogi busnesau micro, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol, ac i annog creu busnesau newydd ac ysgogi twf economaidd.

Mae’n hollbwysig buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo modern i ganiatáu i fusnesau ehangu a thyfu. Gallwn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau cyflenwad o safleoedd o'r radd flaenaf, sy'n barod am fuddsoddiad ac eiddo sy'n effeithlon o ran ynni ar gyfer busnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr.  Mae'r gyllideb adnoddau o £2.3m a'r gyllideb gyfalaf o £34.8m yn y Gyllideb Ddrafft hon yn parhau â'n buddsoddiad mewn eiddo masnachol, lle mae tystiolaeth o fethiant y farchnad.

Gan gydnabod y twf digynsail yn y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnolegau sy'n seiliedig ar ddata, rydym yn harneisio pŵer a photensial technolegau newydd i sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion a chryfhau economi Cymru. Mae ein buddsoddiad o £2.5m yn cael ei  ymgorffori yn y llinell sylfaen yn 2025-26 i ariannu ein Swyddfa AI a chefnogi'r gwaith o roi AI ar waith ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Rydym yn cynnal buddsoddiad cyfalaf o £20m i wella cysylltedd digidol ledled Cymru i alluogi cartrefi a busnesau i ffynnu ac ymdrin â chymdeithas fodern sy'n croesawu gwasanaethau digidol newydd a thechnolegau newydd, fel AI.

Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym yn parhau i fynd i'r afael â phroblem capasiti ac oedi yn y system gynllunio, sy'n rhwystr i dwf, ac rydym wedi cynnal ein buddsoddiad yn y maes

hwn ar £5.1m.  Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaeth cynllunio a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol. Eleni rydym wedi cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio o 50% ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli'r buddsoddiad unigol mwyaf mewn gwasanaethau cynllunio lleol ers blynyddoedd lawer.

## Pontio teg a ffyniant gwyrdd

Drwy Trydan Gwyrdd Cymru rydym yn buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy mawr i bweru ein cymunedau lleol, cefnogi ein targedau ynni adnewyddadwy a dod â buddsoddiad gwyrdd newydd i'r economi ledled Cymru. Mae gan y rhain y potensial i gynhyrchu 400MW o drydan glân, sy'n ddigon i bweru anghenion trydan cyfatebol chwarter y cartrefi yng Nghymru. Rydym hefyd yn parhau â'n buddsoddiad mewn prosiectau ynni lleol clyfar yng Nghymru drwy Ynni Cymru, lle mae cyllid cyfalaf ar gyfer 2026-27 wedi'i gynnal ar £10m.

Rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i ddangos graddfa'r buddsoddiadau sydd eu hangen i ddarparu system ynni'r 21ain ganrif yng Nghymru. Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad adnoddau o £8.5m yn y maes hwn ac yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthau i ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i annog buddsoddiad i greu twf a swyddi medrus. Mae arwyddion bod hyn eisoes yn digwydd ledled Cymru. Er enghraifft, mae cyflwyno'r model Solar Together i ddechrau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd eisoes yn gweld cyflenwyr o Gymru yn creu swyddi newydd.

## Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Yn y Gyllideb Ddrafft hon rydym yn darparu £23.2m o gyllid adnoddau a £10.5m o gyfalaf i Chwaraeon Cymru i barhau i gefnogi rhaglenni allweddol, gan gynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau, a datblygu chwaraeon ar lawr gwlad.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddiogelu ein celfyddydau a'n treftadaeth ddiwylliannol. Felly, rydym yn darparu £33.5m o gyllid adnoddau i Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn parhau i gefnogi'r celfyddydau ac ehangu mynediad.

Mae'r cyllid i'n sector diwylliant a threftadaeth yn cynnwys £28.5m o gyllid adnoddau i Amgueddfa Cymru, £12.4m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a £1.9m i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Rydym wedi cynyddu'r dyraniadau cyfalaf mewn cymorth grant i Amgueddfa Cymru (£0.5m); Llyfrgell Genedlaethol Cymru (£0.3m) a Chyngor Celfyddydau Cymru (£0.5m), sy'n golygu y gallant barhau i fuddsoddi yn eu hystadau a'u cyfleusterau craidd.

Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon bydd £9.9m o gyllid adnoddau yn cefnogi'r gyllideb diwylliant a chwaraeon lleol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ar gyfer gwella cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a mynediad, yn ogystal â chynnal buddsoddiad mewn rhaglenni chwaraeon cenedlaethol pwysig, megis nofio am ddim i'r lluoedd arfog. Mae hyn hefyd yn cynnwys £2m ychwanegol ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Bydd cyllideb adnoddau Cadw o £17.5m yn gwarchod, diogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd hanesyddol drwy reoli 132 eiddo yn uniongyrchol. Mae hyn yn adlewyrchu dyraniad adnoddau ychwanegol o £7.4m sydd wedi ei ymgorffori yn y llinell sylfaen ar gyfer y newid yn y polisi cyfrifyddu ar gyfer cadwraeth. Yn flaenorol, roedd y gwariant hwn yn cael ei ddosbarthu fel cyfalaf ac felly mae gostyngiad cyfatebol yn y dyraniad cyfalaf. Bydd cyllideb gyfalaf Cadw hefyd yn cael ei chynyddu £0.2m, i £9m.

## Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Ar ôl blwyddyn lwyddiannus arall yn cynnal digwyddiadau mawr, mae Cymru'n paratoi i groesawu rhagor o dwrnameintiau a dyddiadau chwaraeon cyffrous a phroffil uchel yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn paratoi ar eu cyfer, y seilwaith sydd ei angen arnynt, a sicrhau bod Cymru'n manteisio ar eu gwaddol, mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cynnwys £1.7m o gyllid adnoddau pellach a £0.5m o gyllid cyfalaf i gefnogi gwaith cynllunio, gan gynnwys yn benodol ar gyfer Grand Depart Tour de France 2027 ac EURO 2028.

Rydym yn darparu buddsoddiad cyfalaf strategol o £6.5 mewn datblygu twristiaeth ar gyfer 2026–27. Rydym yn parhau â chronfa ddwy flynedd Y Pethau Pwysig, sy'n gwella seilwaith hanfodol ar gyfer ymwelwyr mewn cyrchfannau allweddol ledled Cymru. Mae'r gronfa hon, a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, yn sicrhau bod profiad ymwelwyr o ansawdd uchel yn gyson, gan atgyfnerthu enw da Cymru fel cyrchfan dwristiaeth o'r radd flaenaf.

Mae Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru, sy'n werth £50m, yn fecanwaith cyllid cyfunol a reolir gan Fanc Datblygu Cymru. Bydd yn parhau i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n tyfu'r sector ac yn darparu manteision economaidd mesuradwy. Byddwn yn archwilio cymorth wedi'i dargedu i fusnesau twristiaeth preifat ac yn datblygu cynllun seilwaith beicio newydd i fanteisio ar *y Flwyddyn Feicio* a dyfodiad y Tour de France, gan ddatgloi cyfleoedd newydd i'r farchnad a gwella arlwy twristiaeth egnïol Cymru.

## Cymru Greadigol

Rydym yn darparu £8.4m o gyllid adnoddau i Cymru Greadigol, sy'n cynnwys £1.4m ychwanegol mewn cymorth i stiwdios tuag at eu biliau ardrethi annomestig. Bydd hyn yn eu helpu i aros yn gystadleuol ac yn cynnig cydraddoldeb iddynt, yn unol â'r cymorth ariannol a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

Rydym yn cynyddu'r dyraniad cyfalaf o £0.5m i £7.5m i gefnogi cynyrchiadau a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n datblygu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol, ac i ddenu mwy o gynyrchiadau o'r tu allan i Gymru sy'n ceisio ffilmio neu gynhyrchu yng Nghymru, gan ddod â mwy o gyfleoedd gwaith i Gymru. Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r wlad fel cyrchfan i gynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf.

## 8. Cyfiawnder Cymdeithasol

### Trosolwg

Nod cyllid portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau, mynd i'r afael â thlodi, hyrwyddo hawliau dynol a hawliau plant, a gwella llesiant pawb yng Nghymru. O gymharu â chyllidebau adrannol eraill Llywodraeth Cymru, buddsoddiadau bach yw'r rhain, ond mae eu heffeithiau yn bellgyrhaeddol ac yn sylweddol i'r unigolion sydd angen y cymorth mwyaf. Mae'r buddsoddiadau a wneir drwy'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn ategu ein blaenoriaethau, sy'n seiliedig ar egwyddorion darparu cyfle cyfartal a gwella bywydau pawb yng Nghymru.

Nod y penderfyniadau cyllid yw mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, yn enwedig ymhlith grwpiau y mae tlodi yn effeithio'n anghymesur arnynt, megis aelwydydd â phlant, aelwydydd un person, pobl anabl a chymunedau ethnig lleiafrifol.

**Ffigur 8.1: Dyraniadau'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 135,319 | 2,735 | 5,500 | 143,554 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 17,890 | 358 | 0 | 18,248 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 457 | 457 |
| **Cyfanswm** | **153,209** | **3,093** | **5,957** | **162,259** |

### Cyllid ychwanegol

Mae'r cynnydd chwyddiannol yn darparu £2.7m o gyllid adnoddau a £0.4m o gyllid cyfalaf ychwanegol. Mae cynnydd adnodd o 2% wedi'i weithredu yn gyfartal ar draws pob un o'r BELs. Mae hyn yn cydnabod bod dull system gyfan sy'n mynd i'r afael â sawl maes anfantais ar draws gwahanol feysydd polisi yn hanfodol i sicrhau cyfleoedd i bob teulu ac i wella canlyniadau i bobl yn y tymor hirach. Mae hefyd yn cydnabod y costau cynyddol sy'n wynebu'r trydydd sector, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cymunedau.

Mae cyfleoedd hefyd wedi'u nodi i ailbennu £2.4m o gyllid adnoddau pellach o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, gan dargedu'r meysydd lle ceir yr effaith fwyaf a lle mae'r angen mwyaf. Daw £1.2m o hwn o'r gyllideb Incwm Sylfaenol ac £1.2m o feysydd eraill lle nad oedd costau cyson. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl cynyddu rhai BELs uwchlaw 2%.

Mae £5.2m o gyllid adnoddau o gyfran amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru o'r ardoll cyngor ar ddyled hefyd wedi'i ddyrannu ar sail untro, a fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau cyngor ar ddyled drwy gyllideb gwasanaethau cynghori.

Mae £0.3m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r MEG at ddibenion penodol. Mae £0.2m o hwn i ariannu costau blwyddyn gyntaf Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru). Mae'r £0.1m arall yn mynd i'r gyllideb Gweinyddu Cyfiawnder Troseddol i ariannu cynllun peilot mewn cydweithrediad â Greater Change, er mwyn archwilio dulliau gwahanol o gefnogi pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

## Cynhwysiant Ariannol

Mae'r gyllideb cynhwysiant ariannol yn cynnig cymorth uniongyrchol i bobl sy'n profi caledi ariannol. Mae gan y Gronfa Cymorth Dewisol gyllideb o ryw £39m. Mae tua 50% o'r rhai sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn deuluoedd â phlant ac, felly, mae'n fecanwaith allweddol i helpu'r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ochr yn ochr â chymorth ehangach drwy'r portffolio hwn a rhannau eraill o Lywodraeth Cymru.

Bydd y cynnydd cyfalaf o £0.4m a ddarperir i'r MEG yn cael ei wario ar gynhwysiant ariannol, gan greu rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer undebau credyd. Bydd hyn yn galluogi dull mwy strategol a thecach o ariannu'r sector.

## Cymunedau Cydlynus

Mae ein cyllideb o £10m ar gyfer cymunedau cydlynus yn helpu i arddangos yr ymrwymiad sydd gennym o hyd i gefnogi cymunedau a meithrin cysylltiadau da, hyrwyddo cyfle cyfartal a herio troseddau casineb a thensiynau cymunedol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi integreiddio mudwyr, gan gynnwys cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y bydd ganddynt yn aml un neu fwy o nodweddion gwarchodedig ac sy'n fwy tebygol o elwa o'n gwaith i ddileu anghydraddoldebau.

## Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mae'r cyllid yr ydym yn parhau i'w roi i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu - mae cyllideb flynyddol o £16.3m - yn cefnogi ein rôl mewn cymunedau. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn chwarae rôl hanfodol fel cydlynwyr cymunedol, gan weithredu fel llygaid a chlustiau a helpu i wneud cymunedau yn fwy diogel.

## Gwasanaethau Cynghori

Rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol o ryw £16m mewn gwasanaethau cynghori, sy'n codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau ac yn helpu pobl sydd dan anfantais, ar yr ymylon ac yn wynebu problemau lles cymdeithasol i gael gafael ar wasanaethau. Rydym wedi darparu £12m y flwyddyn am dair blynedd ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar faterion lles. Yn 2025-26, roedd 83% o'r bobl a oedd yn defnyddio un o wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn dod o un o grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, pobl hŷn, gofalwyr pobl

hŷn a theuluoedd incwm isel â phlant. Bydd £0.5m ychwanegol o gyllid adnoddau yn helpu i symleiddio budd-daliadau Cymru, gan ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a chefnogi awdurdodau lleol o ran capasiti ac arbenigedd ychwanegol.

## Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol

Mae ein Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi dod i ben, ac mae bellach yn cael ei werthuso. O ganlyniad, gellir rhyddhau £1.2m o'r gyllideb yn 2026-27, ac mae £0.3m yn weddill i gwblhau'r gwerthusiad er mwyn deall yr effaith y mae wedi'i chael ar fywydau'r rhai a gymerodd ran. Darparodd y cynllun peilot werth 24 mis o daliadau incwm sylfaenol i fwy na 600 o bobl ifanc wrth adael gofal, carfan o bobl ifanc a oedd, o bosibl, mewn mwy o berygl o gael eu heffeithio gan dlodi. Sicrhawyd bod unigolion yn barod ar gyfer yr adeg pan fyddai'r taliadau yn dod i ben, a bod cymorth ariannol a chymorth arall priodol ar gael iddynt.

## Meysydd allweddol eraill

Mae ailbennu cyllid adnoddau o fewn y MEG wedi golygu cynnydd o fwy na 2% i rai cyllidebau. Bydd £0.1m ychwanegol yn mynd i'r gyllideb cynhwysiant digidol i gefnogi mynediad digidol i'r rhai mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas a rhannau allweddol o'r boblogaeth sy'n wynebu cael eu hallgáu'n ddigidol.

Mae cynnydd o £0.7m yn cael ei ddarparu i gefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r cyllid hwn yn mynd drwy'r BEL cefnogi cymunedau ar gyfer gweithredu'r *Strategaeth Tlodi Plant,* sy'n cynnwys £0.45m ar gyfer grant Tlodi Plant a £0.25m i barhau i gefnogi Cymuned Ymarfer y Strategaeth Tlodi Plant Genedlaethol.

Mae £0.5m o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r gyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae hyn yn cefnogi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at adnoddau priodol a gwasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion yn ogystal â chryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru.

Mae dyraniad o £0.4m wedi'i wneud i'r BEL cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad sydd heb ei ariannu ar hyn o bryd yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Gwasanaeth Cyfreithiol Cydraddoldeb.

Mae £0.2m wedi'i ddyrannu i'r BEL cymorth i'r sector gwirfoddol, i dalu am yr adnoddau gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol o £1.5m a ddarperir i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

# 9. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

## Trosolwg

Mae MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cwmpasu set amrywiol o gyfrifoldebau sy'n cefnogi seilwaith strategol a gweithredol y llywodraeth. Mae'n sicrhau bod pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet yn cael ei gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau. Yn ogystal, mae'n darparu cyllid ar gyfer nifer o feysydd polisi. Er enghraifft, mae'n cynnwys buddsoddiad yn y Gymraeg, â chyllid ar gyfer mentrau Cymraeg 2050, Comisiynydd y Gymraeg, a sefydliadau cenedlaethol fel yr Urdd a'r Eisteddfod.

Mae'r MEG hefyd yn cefnogi cyfathrebu, trawsnewid digidol, cysylltiadau rhyngwladol, a chydlynu ymatebion trawslywodraethol i argyfyngau a digwyddiadau sylweddol. Mae'n chwarae rôl allweddol wrth alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau drwy gynnal y systemau, y partneriaethau a'r ymrwymiadau diwylliannol sy'n sylfaenol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

**Ffigur 9.1: Dyraniadau'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| £000oedd | Llinell sylfaen ddiwygiedig | Cynnydd chwyddiannol | Newidiadau eraill | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Cyllidol | 433,965 | 9,271 | 2,247 | 445,483 |
| Cyfalaf Cyffredinol | 14,609 | 292 | 3,338 | 18,239 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **448,574** | **9,563** | **5,585** | **463,722** |

## Cyllid ychwanegol

Mae'r cynnydd chwyddiannol i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn golygu £9.3m o gyllid adnoddau a £292,000 o gyllid cyfalaf ychwanegol. Ymhlith y newidiadau eraill o ran adnoddau mae dyraniad ychwanegol o £4.4m ar gyfer cynnydd a ragwelir yng nghost benthyca ar gyfer taliadau llog mewn perthynas â'r Cronfeydd Benthyciadau Gwladol, a chamau technegol yn sgil symud cyllidebau Buddsoddi i Arbed o gyllidebau canolog i adrannau portffolio. Mae cyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei ddarparu i Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dyrannu cyllid ychwanegol i gyllidebau'r Gymraeg, Awdurdod Cyllid Cymru ac i gefnogi costau staff canolog er mwyn sicrhau digon o adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau a rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

## Cymraeg 2050 / y Gymraeg

Bydd cyllidebau adnoddau Cymraeg 2050 yn cael cynnydd chwyddiannol o £0.8m, gan gynyddu BEL y Gymraeg i £39.3m yn 2026-27. Bydd hyn yn parhau'r gefnogaeth i gyflawni

nodau ac amcanion ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn dilyn y cynnydd o £4.6m yn 2025-26 a ddarparodd gymorth mawr ei angen i'r sector Cymraeg.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, deddf bellgyrhaeddol a hanesyddol, yn ganolog i'n huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gyllideb hon yn parhau'r cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a chyfleoedd i bobl ddysgu a mwynhau'r Gymraeg. Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf, byddwn hefyd yn cefnogi costau cychwynnol sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel corff newydd sy'n gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu Cymraeg.

Mae creu'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg i gefnogi cymunedau Cymraeg yn flaenoriaeth yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid i barhau i gefnogi'r cynllun, gan gynnwys drwy gynllun grant a phrosiect Perthyn.

Bydd cyllideb adnoddau Comisiynydd y Gymraeg yn cynyddu 2% yn 2026-27 i £3.47m, gan gefnogi rôl hanfodol y Comisiynydd wrth hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

## Awdurdod Cyllid Cymru

Mae £0.29m o gyllid adnoddau a £2.77m o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu i Awdurdod Cyllid Cymru. Diben y cyllid adnoddau ychwanegol yw buddsoddi yn nhîm gwaredu anawdurdodedig yr Awdurdod er mwyn casglu Treth Gwarediadau Tirlenwi heb ei thalu. O ganlyniad, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cynyddu lefel ddisgwyliedig y refeniw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n golygu bod gennym fwy o arian i'w wario ar ein blaenoriaethau cyffredinol.

Bydd y dyraniad cyfalaf ychwanegol yn cefnogi gwaith Awdurdod Cyllid Cymru i baratoi ar gyfer cyflwyno ardoll ymwelwyr a chofrestr genedlaethol o lety ymwelwyr yng Nghymru. Bydd y data yn y gofrestr hon yn galluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau gwybodus wrth ystyried a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr; bydd hefyd yn hanfodol er mwyn gallu cydymffurfio â'r ardoll ymwelwyr. Y cynharaf y gallai awdurdodau lleol godi'r ardoll yw Ebrill 2027, ond caiff y gofrestr genedlaethol ei chyflwyno o fis Hydref 2026.

## Cymorth i'r Sefydliad

Mae £7.6m o gyllid adnoddau wedi'i ddyrannu i gefnogi cyllideb costau staff. Mae angen cyllid ychwanegol ar gyfer costau staff er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet.

Bydd cyllid Ystadau a Chyfleusterau yn aros ar lefelau 2025-26. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ymdrechion a buddsoddi i weithio tuag at ein hymrwymiadau Sero Net.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn systemau technoleg gwybodaeth a gwasanaethau corfforaethol Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio'n fwy ar ddata gweithredol. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio i alluogi Llywodraeth Cymru i fod yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail data, a defnyddio technoleg gwybodaeth i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach.